Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 36 Tanysgrifiad blynyddol i'r Ysgrifennydd £3 NADOLIG 1988

## GWEDDI DAER

**AMHARODRWYDD derbynwyr i dalu eu dyledion - problem a fu'n gyfrifol am dranc nifer cywilyddus o gyhoeddiadau Cymraeg y ganrif ddiwethaf.**

Mae'r frawddeg yn haeddu cael ei chyflwyno mewn inc coch - ond nid ni a'i piau. Fe'i gwelwch yn erthygl P.H. Jones yn y rhifyn hwn pan mae'n trafod trafferthion y cyntaf o'n prif newyddiaduron *Amserau* Gwilym Hiraethog a ymgorfforwyd yn *Baner Cymru.*

Na, nid ni biau'r frawddeg. Ond mae'n berthnasol. Wele gyflwr *Y Casglwr.* Ychwanegu tros gant arall at y cylchrediad eleni i'w godi i 1,314 - sydd tros gant yn fwy na gwerthiant *Y Llenor* ar ei orau. A hyder fod y pymtheg cant yn y golwg.

* * *

OND - ac mae'n OND mawr - nid ar y gwynt yr ydym ninnau'n bodoli. Ystyriwch y costau. Pob rhifyn bellach rhwng stamp ac amlen, yn costio 30c i'w bostio. Tri yflwyddyn yn bwyta 90c o'ch tair punt. Pob rhifyn yn costio rhyw 70c i'w argraffu. Dyna 210c. - a dyna bob dimai o'r tair punt wedi mynd. Ar ben hyn mae yna angen talu i'r cyfranwyr, stondin a darlith yn y Steddfod a llu o fân dreuliau (neb o'r swyddogion yn cael cyflog).

Wel - mae hynny hefyd yn bosibl. Daw arian gan hysbysebwyr, daw rhoddion gennych chi sy'n talu, a daw'r gweddill gan Gyngor y Celfyddydau - ac mae'r diolch yn enfawr iddynt i gyd.

Ac at beth mae hyn oll yn arwain? At godi'r tanysgrifiad unwaith eto? Dim byd o'r fath. Mi fedrwn fyw yn daclus ar y tair punt – dim ond i ni gael y tair punt. A dyw'r taliadau yma ddim yn cyrraedd yn ddigon prydlon a chyson.

Felly dyma apêl. Dyma grefu, dyma waedd uwch adwaedd, dyma weddi uwch adweddi (os oes yna'r fath beth) - TALWCH EICH TAIR PUNT AM Y FLWYDDYN NESAF A'U TALU'N AWR.

Mi fyddwch wedi anghofio unwaith eto os gadewch bethau tan ar ôl y Nadolig.

Gwyddom mai anghofrwydd yw'r drwg, ac ansicrwydd am faint eich dyled. Felly, oni wyddoch i sicrwydd faint sy arnoch - anfonwch y tair punt yn unig

* * *

YN AWR. Yna, yn rhifyn Mawrth, cewch nodyn gyda'r *Casglwr* yn dangos os oes yna ychwaneg yn ddyledus. Pardwn i'r rhai sy'n talu yn y Brifwyl.


**POSTIWCH HEDDIW i Richard H. Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed er mwyn i ni fedru talu'n biliau ac arbed un cylchgrawn Cymraeg arall rhag mynd i'r lle yr aeth y lleill.**

## D. WHITESIDE THOMAS a'i gardiau Nadolig tro'r ganrif

# DIM ROBIN GOCH, DIM CYMRAEG








MAE GENNYF gasgliad bychan o gardiau Nadolig a anfonwyd i aelod o'r teulu ar ddechrau'r ganrif. Mae pob un yn Saesneg. Rhai o'r cardiau yn unig sy'n cynnwys lluniau ''Nadoligaidd', ac y mae cyfran helaeth ohonynt yn dangos lluniau blodau (yn enwedig Na'ad fi'n angof) a golygfeydd.

Mae un ohonynt yn dangos llun lliw o Gastell Caernarfon, a thusw o flodau'r Pabi coch oddi mewn iddo. Mae ambell un yn dangos sbrigyn o gelyn neu dorch o uchelwydd, ac y mae iorwg yn blanhigyn eithaf cyffredin arnynt hefyd.

Does dim un o'r cardiau yn fy meddiant yn dangos llun y Robin Goch. Eto i gyd, roedd y Robin wedi dechrau ennill ei blwy' ar gardiau Nadolig erbyn y cyfnod hwn. Daeth yn boblogaidd am fod y gwasanaeth post wedi gwella, a'i gwneud yn bosibl i bobl anfon cardiau i'w gilydd.

Cysylltwyd y Robin gyda lliw gwisg y postmon - a oedd, rhyw ganrif yn ôl, yn goch llachar. Mewn llawer ardal, dechreuwyd galw'r Postmon yn 'Robin', a chlywid pobl yn holi: "Ydi Robin wedi galw?"

* * *



YN YSTOD tymor y Nadolig deuai'r Robin Goch i gardota am friwsion, ac mewn amryw o gardiau Nadolig o oes Victoria dangosid y Robin gyda lluniau o blant tlawd. Roedd yn arferiad gan y bobl gefnog i gyfrannu arian i'r tlodion er mwyn iddynt gael pryd da o fwyd yn ystod cyfnod y Nadolig.

Gelwid llawer o'r plant oedd yn cardota ar y strydoedd yn 'Robin', ac yr oedd y prydau bwyd a gâi eu paratoi ar eu cyfer yn cael eu galw'n "ginio Robin". Dyma neges mewn cerdyn Nadolig oedd yn dangos plentyn bach yn cardota yng nghwmni Robin Goch:

*My wishes come by Robin's rhymes*
*Since he has pleased so many times;*
*For Britain's poor are still in need*
*Whom Robin's crumbs may help to feed.*

Saesneg wrth gwrs, oedd iaith y cardiau, ac yn Saesneg yn aml roedd y Cymry yn anfon cyfarchion i'w gilydd. Mae pob un o'r cardiau sy'n fy meddiant wedi eu sgwennu yn Saesneg. Roedd rhai cardiau wedi eu hargraffu'n arbennig i ambell deulu, fel nad oedd angen iddynt sgwennu eu cyfarchion eu hunain!